

CYNGOR TREF ABERTEIFI :: CARDIGAN TOWN COUNCIL



Hysbysiad pennu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

Cyngor Tref Aberteifi

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 March 2022

1. Dyddiad cyhoeddi: 20 Mehefin 2022
2. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Eleri Maskell, Clerc i'r Cyngor, Swyddfa'r Cyngor, 36 Pendre, Aberteifi, SA43 1JS

Ffôn: 01239 621527

cyngor@trefaberteifi.co.uk

Rhwng yr oriau o 10.00yb a 3.00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener

Yn dechrau ar 4 Gorffennaf 2022

Ac yn dod i ben ar 29 Gorffennaf 2022

3. O 12 Medi 2022, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
 - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
 - yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngorau Cymuned, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ neu drwy e-bost yn archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru.

4. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.